# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cambian Pengwern College – The Chalet**

**The Roe**
**Llanelwy**
**LL17 0LU**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

02/10/2020

# Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2020.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cambian Pengwern College – The Chalet

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Oedolion a Phlant Heb Ofal Nyrsio |
| Darparwr Cofrestredig | Cambian Whinfell School Ltd |
| Lleoliadau cofrestredig | 5 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg a Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 05 Chwefror 2018 a 06 Chwefror 2018 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac yn gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r staff yn deall anghenion gofal a chymorth y bobl ifanc. Mae amrywiaeth o wasanaethau iechyd cymunedol a mewnol a gweithgareddau ar gael i'r bobl ifanc, ac maent yn cael eu haddysg drwy Goleg y darparwr gwasanaeth. Mae'r dogfennau cyn derbyn ac asesiadau'r darparwr yn llywio'r cynlluniau personol, ond mae angen i asesiadau'r darparwr gynnwys gwybodaeth fanylach. Ar y cyfan, mae'r cynlluniau gofal yn cynnwys gwybodaeth yn ymwneud ag anghenion emosiynol, corfforol ac ymddygiadol y bobl ifanc, a chynhelir asesiad risg arnynt. Mae angen rhagor o wyliadwriaeth er mwyn sicrhau bod y cynlluniau a'r asesiadau risg hyn yn cynnwys gwybodaeth gyson. Mae'r gwasanaeth yn rhoi gwybod i asiantaethau am ddigwyddiadau diogelu mewn modd amserol. Caiff y bobl ifanc eu hannog i fod yn annibynnol, dilyn ffordd iach o fyw a mynegi eu barn o ran eu dewisiadau personol. Mae digon o le yn yr amgylchedd ac mae ystafelloedd y bobl ifanc wedi'u personoli. Caiff gwiriadau iechyd a diogelwch amserol eu cwblhau ac mae tîm cynnal a chadw ar gael i'r gwasanaeth. Mae gwiriadau recriwtio diogel yn cael eu cwblhau ac mae'r staff yn cwblhau cyfnod sefydlu, yn cael hyfforddiant a sesiynau goruchwylio rheolaidd. Nid oes gan y gwasanaeth unigolyn cyfrifol ar hyn o bryd ond mae person enwebedig yn cyflawni'r rôl. Mae'r person enwebedig yn goruchwylio'r gwasanaeth, ac yn sicrhau bod prosesau ac archwiliadau monitro ansawdd yn cael eu cwblhau. Mae gan y darparwr gwasanaeth drefniadau llywodraethu ar waith hefyd i gefnogi'r modd y gweithredir y gwasanaeth.

## Llesiant

Mae'r bobl ifanc yn cael eu cefnogi i reoli eu dewisiadau bywyd o ddydd i ddydd ac mae'r staff yn gwrando arnynt. Mae datganiad o ddiben y gwasanaeth ar gael iddynt, ynghyd â chanllaw i bobl ifanc sy'n rhoi gwybodaeth iddynt am y math o wasanaeth a ddarperir. Dywedodd bob person ifanc wrthym fod y staff yn eu trin â pharch, a'u bod yn *"really nice"* ac yn *"great"*. Maent yn fodlon eu byd yn y cartref, ac mae'r bobl ifanc yn cymryd rhan yn y gwaith o gynllunio eu gofal, lle y bo'n bosibl, ac yn dweud bod y staff yn gwrando ar eu safbwyntiau a'u barn. Maent yn dewis y math o weithgareddau maent yn cymryd rhan ynddynt, yn cael sesiynau rheolaidd â gweithwyr allweddol ac yn gallu defnyddio gwasanaeth eirioli annibynnol.

Mae amrywiaeth o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar gael i'r bobl ifanc. Mae'r ffeiliau gofal yn cynnwys gwybodaeth yn ymwneud ag anghenion corfforol a llesiant iechyd meddwl emosiynol y bobl ifanc. Pan fydd angen, gallant gysylltu â thîm therapiwtig y gwasanaeth i gael cymorth ymarferol ac ymddygiadol, ynghyd â gwasanaethau iechyd yn y gymuned. Mae'r staff yn helpu'r bobl ifanc i fynd i apwyntiadau, cymryd rhan mewn gweithgareddau ac yn eu hannog i ddilyn ffordd iach o fyw. Mae'r gofal a'r cymorth yn canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau cadarnhaol i'r bobl ifanc, gan ddatblygu eu hannibyniaeth a'u hunan-barch.

Mae gan y gwasanaeth bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith i sicrhau bod y bobl ifanc yn cael eu diogelu rhag niwed. Mae gan y gwasanaeth weithdrefnau amddiffyn plant ac oedolion ar waith sy'n cynnwys polisïau diogelu, chwythu'r chwiban a chwyno. Caiff y bobl ifanc eu hannog i rannu eu barn a gallant leisio pryderon. Mae gwasanaeth eirioli annibynnol ar gael iddynt ac roedd cofnodion ysgrifenedig yn dangos bod y darparwr yn rhoi gwybod i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac asiantaethau iechyd a gofal cymdeithasol perthnasol am faterion llesiant a diogelu, ac yn ymateb iddynt, mewn modd amserol. Mae gwiriadau recriwtio staff manwl yn cael eu cwblhau ac mae'r staff yn cwblhau hyfforddiant diogelu.

Caiff darpariaeth addysgol ei hyrwyddo a gall y bobl ifanc fwynhau gweithgareddau yn y gymuned. Gall y bobl ifanc fanteisio ar Goleg addysg bellach arbenigol y cwmni, a gafodd ei arolygu ddiwethaf gan Estyn (Arolygiaeth ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru) ym mis Gorffennaf 2019. Mae anghenion dysgu'r bobl ifanc yn cael eu hystyried yn unol â'u galluoedd unigol. Mae'r staff yn cydgysylltu â'r Coleg yn ddyddiol i sicrhau bod cynnydd addysgol y bobl ifanc yn cael ei fonitro. Mae'r staff yn annog ac yn cynorthwyo'r bobl ifanc i ddatblygu a gwella eu sgiliau byw bob dydd annibynnol, ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden sy'n bwysig iddynt.

Mae'r bobl ifanc yn byw mewn llety addas sy'n ddiogel ac yn eu cefnogi i gyflawni eu llesiant. Mae eu hystafelloedd wedi'u personoli gydag eitemau sy'n bwysig iddynt. Mae cyfleusterau ac amrywiaeth o ystafelloedd ar gael i'r bobl ifanc, sy'n cynnig cyfleoedd iddynt gymdeithasu, cael amser preifat a chymryd rhan mewn gweithgareddau, gan

annog eu hannibyniaeth. Mae gan y gwasanaeth ei dîm cynnal a chadw penodedig ei hun sy'n cwblhau gwaith atgyweirio ac adnewyddu a nodir, yn ogystal â gwiriadau iechyd a diogelwch perthnasol, mewn modd amserol.

## Gofal a Chymorth

Mae proses cyn derbyn y gwasanaeth yn asesu'r ffordd y gall ddiwallu anghenion y bobl ifanc a'u cefnogi i gyflawni eu canlyniadau personol. Mae'r polisi a'r gweithdrefnau cyn derbyn yn cynnwys cael gwybodaeth am y bobl ifanc gan wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, teulu/cynrychiolwyr a'r person ifanc, lle y bo hynny'n bosibl. Gwneir hyn drwy'r ffurflen atgyfeirio gan yr awdurdodau comisiynu ac ymweliadau uniongyrchol â'r person ifanc. Mae'r ddwy ddogfen cyn derbyn a welsom yn llywio asesiadau risg a chynlluniau personol, ymddygiadol ac addysgol y bobl ifanc. Maent hefyd yn nodi unrhyw anghenion iechyd penodol sydd gan y person ifanc, ynghyd â'i ganlyniadau personol.

Mae'r cynlluniau personol yn cynnwys gwybodaeth gyfredol am sut y caiff anghenion y bobl ifanc eu diwallu. Mae'r cynlluniau personol ac asesiadau'r darparwr yn cynnwys gwybodaeth i'r staff sy'n eu galluogi i ddarparu gofal a chymorth i'r bobl ifanc. Caiff y cynlluniau eu hadolygu'n rheolaidd ac maent yn cynnwys canlyniadau a dewisiadau personol y bobl ifanc, a bydd pob person ifanc yn cael sesiwn wythnosol gyda'i weithiwr allweddol. Cadarnhaodd tri pherson ifanc hyn gan ddweud wrthym eu bod yn cael eu hannog i gyfrannu at y gwaith o gynllunio eu gofal. Gwnaethom ddweud wrth y darparwr bod angen rhagor o wyliadwriaeth er mwyn sicrhau bod yr asesiadau risg a'r cynlluniau gofal yn cynnwys gwybodaeth gyson a bod angen datblygu asesiadau'r darparwr ymhellach.

Mae gan y gwasanaeth systemau ar waith i sicrhau bod y staff yn gwrando ar y bobl ifanc ac yn diwallu eu hanghenion. Mae'r wybodaeth yn y ffeiliau gofal a'r trafodaethau a gafwyd â'r bobl ifanc yn cadarnhau bod amrywiaeth o wasanaethau iechyd mewnol ac allanol ar gael iddynt, yn ogystal â chymorth eirioli annibynnol. Mae'r bobl ifanc yn dweud eu bod yn cael eu hannog i ddilyn ffordd iach o fyw ac y gallant fynegi eu barn am eu gofal a'u cymorth, a dewis y math o weithgareddau maent yn eu cwblhau. Mae'r cynlluniau gofal a dyddiaduron yn dangos bod y staff yn eu cefnogi i fanteisio ar amrywiaeth o weithgareddau corfforol a hamdden. Mae'r siartiau Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth cyfredol yn dangos bod y feddyginiaeth a roddir yn cael ei chofnodi'n gywir. Mae cyfarpar a chymhorthion cyfathrebu ychwanegol ar gael i'r staff er mwyn sicrhau y gall bobl ifanc sydd angen cymorth i gyfathrebu a mynegi eu hunain yn ystyrlon. Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at gynnig darpariaeth Gymraeg weithredol. Fodd bynnag, mae angen i'r darparwr gwasanaeth wella'r ffordd y mae'n diweddaru ei bolisïau i gynnwys newidiadau yn neddfwriaeth Cymru.

Mae gweithdrefnau diogelu perthnasol ar waith. Dywed y staff fod polisi diogelu'r gwasanaeth ar gael iddynt a'u bod yn deall y weithdrefn i sicrhau bod y bobl ifanc yn cael eu hamddiffyn rhag niwed a chamdriniaeth bosibl. Dywed y staff eu bod yn cael yr

hyfforddiant perthnasol, ac mae cofnodion hyfforddiant y staff yn cadarnhau hyn. Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru hefyd ar gael iddynt, ond nid ydynt wedi'u hymgorffori ym mholisi diogelu'r gwasanaeth ac mae angen gwneud hynny. Dywedodd tri pherson ifanc wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel yn y cartref a'u bod yn ymddiried yn y staff ac yn gallu siarad â nhw os oeddent yn teimlo'n anhapus. Mae'r gwasanaeth yn rhoi gwybod i AGC am ddigwyddiadau diogelu ac yn cyflwyno atgyfeiriadau diogelu mewn modd amserol. Mae canlyniadau'r atgyfeiriadau diogelu a'r camau a gymerwyd yn cael eu cofnodi hefyd.

Mae'r gwasanaeth yn hybu arferion hylan ac yn rheoli'r risg o haint. Mae gan y gwasanaeth bolisi a gweithdrefnau rheoli heintiau ac mae'r rhain wedi'u cynnwys yn y cynllun parhad busnes. Ar adeg yr arolygiad, nid oedd unrhyw achosion o COVID-19 wedi bod yn y cartref. Yn ystod ein harsylwadau rhithiol o'r cartref, roedd y staff yn gwisgo cyfarpar diogelu personol wrth gefnogi'r bobl ifanc. Roedd trafodaethau â'r staff yn cadarnhau eu bod yn ymwybodol o'r polisi rheoli heintiau ac mae'r tîm rheoli yn rhoi gwybod iddynt am unrhyw wybodaeth newydd sy'n ymwneud â COVID-19.

# Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl ifanc yn byw mewn cartref sy'n diwallu eu hanghenion, yn eu helpu i fod mor annibynnol â phosibl ac yn sicrhau ymdeimlad o lesiant. Mae'r cartref yn adeilad ar wahân, sydd wedi'i leoli mewn dinas fach ac yn darparu llety i hyd at bum person ifanc. Mae siopau, cyfleusterau hamdden a chysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus ar gael i'r bobl ifanc. Roedd arolygiad rhithiol o'r cartref dan arweiniad aelod o'r staff yn ein galluogi i weld pob ystafell. Mae gan bob person ifanc ystafell wely ar wahân ac mae gan ddwy ohonynt gyfleusterau en-suite. Mae ystafelloedd gwely'r bobl ifanc wedi'u haddurno a'u dodrefnu'n addas ac yn cynnwys eitemau personol o'u dewis. Dywedodd pob person ifanc eu bod yn hoffi byw yn y cartref a'u bod yn hapus. Mae gan y cartref ddwy ystafell gymunedol gyda digonedd o le i eistedd ac maent yn cynnig cyfleoedd i'r bobl ifanc chwarae gemau, cymdeithasu â'i gilydd ac ymwelwyr, neu dreulio amser ar eu pen eu hunain. Roedd y gegin a'r ardaloedd bwyta yn fawr, a'r cyfleustodau a'r offer a oedd ar gael yn galluogi'r bobl ifanc i ddatblygu eu sgiliau byw'n annibynnol ymhellach. Mae'r ardd gefn yn ddiogel ac yn daclus, ac mae digonedd o leoedd parcio ceir yn yr ardal awyr agored o flaen yr adeilad.

Caiff gwiriadau iechyd a diogelwch o'r safle eu cwblhau'n rheolaidd. Mae gan y cartref lyfr ymwelwyr yn unol â'r trefniadau diogelwch tân, ac mae'n cael budd o'r gwaith adnewyddu a'r gwelliannau diweddar. Mae'r bobl ifanc a'r staff yn fodlon ar y newidiadau i'r ystafelloedd gwahanol yn y cartref, ac mae dogfennau'n dangos bod eu barn o ran addurniadau a gwaith adnewyddu'n cael eu casglu, lle bynnag y bo'n bosibl. Mae'r cofnodion cynnal a chadw iechyd a diogelwch amrywiol a welsom yn dangos bod y staff yn nodi risgiau a pheryglon amgylcheddol posibl ac yn rhoi gwybod amdanynt i dîm cynnal a chadw ystadau'r cwmni. Mae cofnodion ysgrifenedig a thrafodaethau gyda'r staff a'r rheolwr ystadau yn cadarnhau bod materion a nodwyd yn cael eu cwblhau mewn modd amserol. Mae cofnodion sy'n ymwneud â gosod cyfyngau ar y ffenestri, materion diogelwch tân megis profi larymau a phrofi offer a chyfarpar trydanol, yn dangos eu bod wedi'u cwblhau o fewn yr amserlenni a nodwyd ar eu cyfer.

## Arwain a Rheoli

Mae trefniadau llywodraethu ar waith i gefnogi'r modd y gweithredir y gwasanaeth, ac mae'n sylfaen gadarn ar gyfer darparu gofal a chymorth o ansawdd da i'r bobl ifanc. Mae rheolwr y gwasanaeth mewn cyswllt rheolaidd â'r person enwebedig a'r unigolyn cyfrifol, gan ddweud eu bod yn cael eu cefnogi ac yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau'r gwasanaeth. Mae uwch-dîm rheoli'r cwmni yn cynnal cyfarfodydd llywodraethu rheolaidd, ac mae ganddo amcanion clinigol a gweithredol ar waith. Caiff effeithiolrwydd yr amcanion eu mesur drwy gwblhau amrywiaeth o archwiliadau a gynhelir yn y gwasanaeth sy'n ymwneud â llesiant a datblygiad personol y bobl ifanc a'r staff.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn unol â'i ddatganiad o ddiben. Mae'r datganiad o ddiben yn disgrifio'n gywir drefniadau presennol y gwasanaeth sydd ar waith mewn perthynas â gofal a llety, ynghyd â'r addysg bellach arbenigol y mae'n ei darparu drwy'r Coleg. Mae'r datganiad o ddiben hefyd yn amlygu'r ffaith nad oes gan y gwasanaeth unigolyn cofrestredig ar hyn o bryd, er bod person wedi cael ei enwebu ac yn aros i'w gais gael ei brosesu.

Mae trefniadau ar waith i oruchwylio'r gwasanaeth yn effeithiol drwy brosesau sicrhau ansawdd parhaus trwyadl. Mae'r tîm rheoli, y staff a'r bobl ifanc yn cadarnhau bod y person sydd wedi'i enwebu fel yr unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r cartref, yn ystyried eu safbwyntiau ac yn cynnal gwiriadau o'r cartref. Mae copïau o adroddiadau monitro a sicrhau ansawdd y person enwebedig yn cadarnhau hyn ac yn cynnwys meysydd i'w gwella a nodwyd. Mae trafodaethau diweddar AGC gyda'r unigolyn enwebedig yn pwysleisio'r ffaith fod ganddo oruchwyliaeth glir o'r gwasanaeth a dealltwriaeth ohono. Mae ymwelydd annibynnol yn cynnal ymweliadau ychwanegol fel rhan o'r ymweliadau monitro sicrhau ansawdd. Mae tri pherson ifanc a staff yn nodi eu bod yn deall sut i wneud cwyn ac nad oes ganddynt unrhyw bryderon am y gwasanaeth.

Mae niferoedd priodol o staff addas a chymwys ar gael ac maent yn cael hyfforddiant a sesiynau goruchwylio rheolaidd. Gwnaethom edrych ar ffeiliau tri aelod o'r staff, lefelau

staffio, fetio, sefydlu, sesiynau goruchwylio'r staff a'r broses hyfforddi. Mae cofnodion rota'r staff yn dangos bod y niferoedd staffio yn unol ag anghenion gofal a chymorth y bobl ifanc a threfniadau'r gwasanaeth comisiynu. Caiff gwiriadau recriwtio staff manwl eu cwblhau, maent yn gyfredol, ac mae staff newydd yn cwblhau rhaglen sefydlu'r gwasanaeth. Mae'r staff yn nodi eu bod yn cael sesiynau goruchwylio ac arfarniad blynyddol mewn modd amserol ac mae cofnod goruchwylio'r gwasanaeth yn cadarnhau hyn. Mae'r staff yn siarad yn gadarnhaol am lefel y cymorth maent yn ei gael, gan nodi ei bod yn wych a bod y tîm rheoli'n hawdd mynd ato. Mae cofnod hyfforddi'r staff yn dangos bod amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddi ar gael i'r staff ac y gallant gael hyfforddiant sy'n benodol i anghenion y bobl ifanc.

| **Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol** | | |
|---|---|---|
| Dim | | |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

| **Meysydd lle y mae angen gweithredu ar unwaith** | |
|---|---|
| Dim | |

| **Meysydd y mae angen eu gwella** | |
|---|---|
| Dim | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 04/12/2020